# Cyngor Sir

Man Cyfarfod
**Cyfarfod Hybrid - Zoom - Neuadd y Sir**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Iau, 2 Mawrth 2023**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi

Mae croeso i'r rhai sy'n cymryd rhan ddefnyddio'r Gymraeg. Os hoffech chi siarad Cymraeg yn y cyfarfod, gofynnwn i chi roi gwybod i ni erbyn hanner dydd ddau ddiwrnod cyn y cyfarfod

## AGENDA

| 1. | YMDDIHEURIADAU |
|---|---|

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| 2. | COFNODION |
|---|---|

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2022 fel cofnod cywir.
(Tudalennau 1 - 16)

| 3. | DATGANIADAU O DDIDDORDEB |
|---|---|

Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau yn ymwneud ag eitemau i'w hystyried ar yr agenda.

| 4. | CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD |
|---|---|

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan yr Arweinydd.

| 6. | BRIFF GAN Y PRIF WEITHREDWR |
|---|---|

Derbyn briff gan y Prif Weithredwr.

| 7. | CWESTIYNAU CYHOEDDUS |
|---|---|

7.1. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol gan Mike Hall**

Allwch chi ddweud wrthyf am yr holl gyllidebau gwariant sydd wedi bod o 2010 i'r presennol a pha wasanaethau a thorrwyd? Gallwch gynnwys canrannau + neu - os yw hynny'n helpu a gallai gynnwys codiadau treth gyngor i roi golwg gron ar y cwestiwn.

(Tudalennau 17 - 18)

7.2. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Thrawsnewid Corfforaethol gan Nigel Williams**

Sut, ar adeg pan fo'r cyngor yn cael trafferth i gyflawni ei rwymedigaethau statudol, y mae'r cyngor yn cyfiawnhau gwario £300,000 o arian trethdalwyr ar "ailddychmygu" y cyngor? Mae'r cyhoedd eisiau gwasanaethau nid ymadroddion bachog sy'n golygu dim.

(Tudalennau 19 - 20)

7.3. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Cysylltu Powys gan James Holloway**

A yw Cyngor Sir Powys yn gefnogol i Ffermydd Tyrbinau Gwynt ar y Tir, ac os felly, a yw'r Cyngor wedi ystyried y modd o wneud hynny h.y. y seilwaith sydd ei angen i drosglwyddo'r ynni i'r Grid Cenedlaethol?
(Tudalennau 21 - 22)

7.4. **Cwestiwn i'r Aelod Cabinet ar gyfer Powys Fwy Ffyniannus gan David Balmer-Cribb**

Pa gynnydd mae Cyngor Sir Powys wedi'i wneud wrth adolygu'r Canolfannau Hamdden yn y Sir a rhoi cynllun ar waith i wella cyfleusterau a sicrhau eu dyfodol tymor hir? Mae Canolfannau Hamdden yng nghalon cymunedau anghysbell gan ddarparu addysg, rhyngweithio cymdeithasol

a lles. Fel rhan o'r cwestiwn hwn, cyfeiriaf at yr adolygiad a addawyd ym mis Rhagfyr 2022.
https://cy.powys.gov.uk/article/13733/Datganiad-ynghylch-adolygiad-o-wasanaethau-hamdden

(Tudalennau 23 - 24)

| 8. | PENDERFYNIAD TRETH Y CYNGOR AR GYFER 2023/24 |
|---|---|

Cymeradwyo Penderfyniad Treth y Cyngor a gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2023/24.
(I Ddilyn)

| 9. | DATGANIAD POLISI CYFLOGAU AR GYFER 2023/24 |
|---|---|

Ystyried datganiad polisi cyflogau ar gyfer 2023/24.
(Tudalennau 25 - 50)

| 10. | CYNNIG AR GYFER DIWYGIADAU I STRWYTHUR A NIFER Y SEDDI AR BWYLLGORAU CRAFFU |
|---|---|

Ystyried adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro.
(I Ddilyn)

| 11. | PENODIAD I'R PANEL MAETHU |
|---|---|

Penodi aelod i'r Panel Maethu.

| 12. | CYNNIG IAITH 2023 |
|---|---|

## CYNNIG IAITH 2023

Amlygodd canlyniadau diweddar y Cyfrifiad yr angen dybryd i weithredu ar fyrder ac yn gynhwysfawr o blaid y Gymraeg ym Mhowys. Rydym wedi clywed llawer iawn am gynaladwyedd amgylcheddol a'r angen am weithredu, wel mae'r un peth yn wir am ein cymunedau Cymraeg.

Collodd Powys dros 2,600 o siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021, lle mae'r gyfran bellach i lawr i 16%. Mae hyn yn cynnwys cwymp o 1,864 hefyd yn nifer y plant 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg.

Powys ydy'r unig Sir yn ystod y blynyddoedd diwethaf ble cafwyd canran llai yn cael mynediad at addysg Gymraeg na'r canran o siaradwyr yn y gymuned. Does ryfedd felly ein bod yn gweld dirywiad pob degawd yn y ffigyrau.

Wrth gwrs mae nifer o resymau am y dirywiad, gwendid economaidd, newid ym mhatrwm amaethyddiaeth efo llai yn gweithio ar y tir, sef sector traddodiadol efo canran uchel o siaradwyr Cymraeg, allfudiad pobl ifanc a mewnlifiad pobl hŷn, gor-ddatblygu tai mewn rhai cymunedau nad ydynt yn gwir adlewyrchu y cymunedau

hynny, ond hefyd y diffyg gweithredu hanesyddol gan Gyngor Powys o blaid y Gymraeg a diffyg statws ac addysg Gymraeg. Dyna pam mae angen hybu y sylfaen economaidd a chael corff datblygu tebyg i'r hyn oedd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig.

Os yw cynaladwyedd i olygu unrhyw beth felly, ac os am newid y sefyllfa erbyn y Cyfrifiad nesa yna mae'n rhaid gweithredu nawr. Peidied â meddwl bod Powys yn unigryw yn hyn o beth, mae cymunedau traddodiadol neu ieithyddol hanesyddol eraill ar hyd Ewrop wedi wynebu heriau tebyg ac felly mae gwersi medrir eu dysgu yn arbennig o Wlad y Basg ym maes iaith ac economi. Rhaid gwneud hyn efo pecyn o weithgaredd yn cynnwys –

Mae'r Cyngor felly am weld -

- Derbyn yr egwyddor bo'r Gymraeg yn perthyn i bob rhan o Bowys.

| |
|---|
| Asesiad Ariannol – dim goblygiadau o ran adnoddau |

- Cefnogi yr alwad am asiantaeth datblygu economaidd gwledig.

| |
|---|
| Asesiad Ariannol – Gellir cynnwys gohebiaeth â Llywodraeth Cymru oddi fewn i adnodd swyddog heb unrhyw gost ychwanegol |

- Galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn ARFOR (cynllun economaidd ieithyddol gwerth £11m yng Ngorllewin Cymru) i Faldwyn i hybu y Gymraeg a'r economi.

| |
|---|
| Asesiad Ariannol – Gellir cynnwys gohebiaeth gyda'r 4 ALI a LlC oddi fewn i adnodd swyddog heb unrhyw gost ychwanegol |

- Dysgu gwersi ac efelychu yr hyn a wnaed yn ANDOAIN yng Ngwlad y Basg drwy gydblethu gweithgaredd economaidd ac iaith. Bydd y ffocws ar sut y gall Powys ddysgu ac elwa cymunedau cynaliadwy sy'n siarad Cymraeg.

| |
|---|
| Asesiad Ariannol – ni ragwelir unrhyw adnodd ychwanegol |

- Cefnogi datblygu cynllun twristiaeth diwylliannol gan wneud y mwyaf o'n cyfoeth hanes megis Sycharth, Bryngglas, Cilmeri, Canolfan Glyndŵr ac ati gan sicrhau bod Powys yn gymaint rhan o'r dyfodol ag y bu o'r gorffennol. Gwneir hyn drwy adnabod grantiau posib i'w gweithredu.

| |
|---|
| Asesiad Ariannol – gall y cynigion ffurfio rhan o gynlluniau cyfredol twristiaeth, archif ac amgueddfa oddi fewn i adnodd presennol, neu ble gellir ffynonellau ariannu ychwanegol gallai hyn gael ei estyn. |

- Sicrhau cynaladwyedd y Gymraeg i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

| |
|---|
| Asesiad Ariannol – Mae'r Gymraeg yn nod asesu ar gyfer Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig Cynlluniau Datblygu Lleol. |

Bydd Cynlluniau Datblygu Lleol yn cael eu llywio gan Asesiad Iaith Gymraeg. Mae’r Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig a’r Asesiad Iaith Gymraeg ill dau oddi fewn i amrediad cyllideb.

- Sicrhau bod arwyddion masnachol i fod yn ddwyieithog trwy’r Sir yn y Cynllun Datblygu Newydd.

Asesiad Ariannol – Oddi fewn i’r cynlluniau byddai’r asesiad effaith yn sefydlu’r polisïau a’r ymagwedd ddwyieithog berthnasol a fyddai’n rhan o’r cyllidebau presennol. Ond os yw’r polisïau newydd yn amodi arwyddion dwyieithog byddai hyn yn dyfod yn gost ar y busnes i’w gosod mewn lle a chael yr adnoddau.

- Gosod nod o gynyddu canran siaradwyr Cymraeg rhugl yng ngweithle’r Cyngor Sir i 16% ac adlewyrchu cymdeithas.

**Asesiad Ariannol** – Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor ychydig dros 7%, bydd codi hyn i 9% yn cymryd amser. Byddai angen i gynllun gynnwys gwelliant dros nifer o flynyddoedd i annog ymgymryd â hyfforddiant a datblygu cynllunio recriwtio i’r rhieni sy’n siaradwyr Cymraeg, fel prentisiaethau, oddi wrth ysgolion ffrwd ddeuol a ffrwd Gymraeg. Caiff ei awgrymu mai cynllun i recriwtio ysgolion pob oed a datblygu prentisiaethau sy’n siaradwyr Cymraeg rhugl / da yw’r ffordd hawsaf o feithrin rhai ein hunain, byddai rhai ohonynt yn cael eu cynnwys oddi fewn i adnoddau presennol, ond byddai recriwtio targedig / prentisiaeth AD yn gofyn am adnodd ychwanegol.

Gallai swyddogion hyfforddi seiliedig ar waith ychwanegol, fel yr ydym yn ei wneud i’r holl staff bellach, fod yn fwy targedig a’u hyfforddi heb gost ychwanegol.

- Gweithdy ymwybyddiaeth iaith i holl aelodau’r Cyngor ac i weithlu’r Cyngor.

Asesiad Ariannol – Gallai AD a’r Swyddog Iaith Gymraeg hwyluso hyn oddi fewn i adnodd presennol i gydymffurfio â’r safon:

- Safon 132
- Rhaid i chi ddarparu cyrsiau hyfforddi fel bod eich gweithwyr cyflogedig yn gallu datblygu-

  (a) ymwybyddiaeth o’r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth o’i hanes a’i rôl mewn diwylliant Cymraeg);

  (b) dealltwriaeth o’r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau’r Gymraeg;

(c) dealltwriaeth am sut y gellir defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

- Symud 12 ysgol gynradd ar hyd y continwwm ieithyddol neu greu darpariaeth Cymraeg/ysgolion Cymraeg newydd ble nad yw’n bodoli ar fyrder

Asesiad Ariannol – Mae’r **Strategaeth Trawsnewid Addysg / Cynllun Strategol Mewn Addysg Gymraeg** eisoes yn cynnwys cynlluniau i symud 12 ysgol gynradd a 4 uwchradd / pob oedran (gan gynnwys Bro Hyddgen) ar hyd y continwwm ieithyddol dros y 10 mlynedd nesaf. Cafodd y cynlluniau hyn eu cynnwys yng ngwaith costio oes gyfan y Strategaeth Trawsnewid Addysg.

- Sefydlu 3 ysgol uwchradd Gymraeg cyn gynted ac y bo modd

Asesiad Ariannol – Mae’r **Strategaeth Trawsnewid Addysg / Cynllun Strategol Mewn Addysg Gymraeg** eisoes yn cynnwys cynlluniau i symud 12 ysgol gynradd a 4 uwchradd / pob oedran (gan gynnwys Bro Hyddgen) ar hyd y continwwm ieithyddol dros y 10 mlynedd nesaf. Cafodd y cynlluniau hyn eu cynnwys yng ngwaith costio oes gyfan y Strategaeth Trawsnewid Addysg.

- Cynyddu darpariaeth TROCHI er mwyn hwyluso dwyieithrwydd

Asesiad Ariannol – Mae’r **Strategaeth Trawsnewid Addysg / Cynllun Strategol Mewn Addysg Gymraeg** eisoes yn cynnwys cynlluniau i symud 12 ysgol gynradd a 4 uwchradd / pob oedran (gan gynnwys Bro Hyddgen) ar hyd y continwwm ieithyddol dros y 10 mlynedd nesaf. Cafodd y cynlluniau hyn eu cynnwys yng ngwaith costio oes gyfan y Strategaeth Trawsnewid Addysg.

Cynigwyd gan y Cynghorydd Sir Elwyn Vaughan
Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Bryn Davies

**Ar ddiwedd y cyfarfod ffurfiol bydd cyflwyniad a sesiwn Cwestiwn ac Ateb ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cyfarwyddiaeth yr Economi a'r Amgylchedd.**